# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANLLWCHAEARN

2023 / 24

Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned 3

Rôl a Swyddogaethau'r Cyngor 4

Aelodaeth o'r Cyngor 7

Gwaith y Cyngor 2023 /2024 8

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol 11

Mynychu'r Cyngor / Cysylltwch â ni 12

1

# Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanllwchaearn. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Cynghorydd Silyn Roberts

Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanllwchaearn 2023 / 2024

# 2
# Rôl a Swyddogaeth y Cyngor

## Rôl y Cyngor

### Gwaith a wneir gan y Cyngor Cymuned

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn datgan bod pob rhan o Gymru mewn cymuned. Yn Lloegr, mae'r term "Cynghorau Plwyf" yn dal i gael ei ddefnyddio ond yng Nghymru, fodd bynnag, gelwir y term cyfreithiol a chyfansoddiadol ar gyfer yr unedau hyn o weinyddiaeth llywodraeth leol yn "Gynghorau Cymuned"

Y Cyngor Cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol ac mae agosaf at y cyhoedd o ran diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor nifer o hawliau a dyletswyddau statudol.

## Beth yw strwythur y Cyngor?

Darperir rhestr o'ch cynghorwyr lleol ar y dudalen nesaf. Mae gan y Cyngor Cymuned 7 Cynghorydd nad ydynt yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol. Cânt eu hethol bob 4 blynedd. Cyflogir Clerc/Swyddog Ariannol rhan-amser i ymdrin â'r holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd a pharatoi agenda i ymdrin â'r cofnodion a materion ariannol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu gwaith y Cyngor. Cyflogir contractwyr hefyd i wneud gwaith arbenigol megis atgyweirio a chynnal a chadw h.y. torri glaswellt.

Mae'r Cyngor Cymuned yn gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio cyn i Gyngor Sir Ceredigion benderfynu arnynt. Maent yn darparu cyllid ar gyfer digwyddiadau, clybiau a gwasanaethau yn y Cymuned.  Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i eistedd ar gyrff Llywodraethu'r Ysgol.

## Sut mae'r Cyngor yn gweithio?

Bydd unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gydag arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei dderbyn drwy godi praesept sy'n rhan o'r Dreth Gyngor a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion.

## Beth yw praesept y Cyngor?

Yn 2023/24 pennir praesept y Cyngor ar £11,170.00. Codir y praesept i ariannu cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned gan gynnwys torri glaswellt a chynnal a chadw diffibriliwr a chyfraniadau i sefydliadau lleol.

## A all y cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd?

Ar bob cyfrif. Mae croeso i chi fynychu ein cyfarfodydd fel gwrandawyr yn unig – a byddem yn annog hynny. Nid oes gan aelodau'r cyhoedd hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod – fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle caniateir i'r cadeirydd alw am gyfraniad gan y cyhoedd ac iddynt wneud datganiad. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn fisol, ac eithrio mis Awst, ac fe'u cynhelir fel arfer ar y bedwaredd nos Iau o’r mis. Gallwch fynychu drwy fynd i’r man cyfarfod yn Neuadd Caerwedros neu trwy Zoom.

## Cyfarfod Blynyddol

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth gyfreithiol fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dyddiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned am y deuddeg mis nesaf.

## Etholiad

I gael ei ethol yn Gynghorydd rhaid i aelod fod yn gymwysedig o dan y gyfraith, bod yn Ddinesydd Prydeinig a rhaid iddo fod wedi cyrraedd 21 oed.

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod yn-

• etholwr llywodraeth leol

• wedi meddiannu, yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw, fel perchennog neu denant unrhyw dir neu fangre arall yn yr un ardal

• mae'r pennaeth, neu'r unig le gwaith, yn ystod deuddeg mis cyn yr etholiad, wedi bod yn y maes hwnnw.

• yn byw yn ystod y deuddeg mis cyfan yn yr ardal honno, neu o fewn tair milltir i'r ardal honno

# 3

# Aelodaeth o'r Cyngor

# 2022/2023

Mae gan Gyngor Cymuned Llanllwchaearn 7 Cynghorydd

| Aelod o'r Cyngor | Tymor y Swydd | Tymor fel Cadeirydd & Is-gadeirydd |
|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Silyn Roberts | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Cadeirydd Mai 2023 - Mai 2024 |
| 2. Cynghorydd Euros Lloyd | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Is-gadeirydd Mai 2023 - Mai 2024 |
| 3. Cynghorydd Gareth Ioan | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 4. Cynghorydd Meleri Richards | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 5. Cynghorydd Gill Hearne | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 6. Cynghorydd Mel Jones | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| 7. Cynghorydd Matthew Vaux | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |

## Pryd mae Cyngor Cymuned Llallwchaearn yn cyfarfod?

Mae Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn cyfarfod ar y pedwaredd nos Iau y mis (ac eithrio mis Awst)

# 4
# Gwaith y Cyngor yn 2023/2024

---

**Agoriad Swyddogol Man Chwarae Bro Hafan**

Cafwyd yr agoriad swyddogol i'r man chwarae ar 30 Medi 2023 wedi gwaith diflino rhai o aelodau'r Cyngor a gyda chefnogaeth grant sylweddol gan y Loteri Genedlaethol. Diolch yn fawr i bawb am eu gwaith.

**Diffibriliwr Maenygroes**

Sicrhau bod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn sych ac ar gael mewn argyfwng.

**Cyflymder cerbydau trwy Pentre'r Bryn**

Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i geisio gweld gwelliannau o ran cyflymder cerbydau yn teithio trwy Pentre'r Bryn drwy drafodaethau gyda'r gymuned a'r heddlu lleol a cheisio creu Cynllun Gwylio Cyflymder.

**Ymgynghoriad Premiwm Treth y Cyngor Sir Ceredigion**

Cyflwynwyd sylwadau ar yr ymghynghoriad.

**Comisiwn Ffiniau**

Lluniwyd ymateb i'r Comisiwn Ffiniau yn sgil cyhoeddi 'Adroddiad o Drefniadau Cymunedol Sir Ceredigion' (2024)

**Gweithgor y 4 Llan**

Mae aelodau o'r Cyngor yn rhan o 'Weithgor y 4 Llan' yn sgil creu Arolwg Tai Lleol.

**Arosfan Pentre'r Bryn**

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud ymholiadau i geisio cael mynediad llawn i holl breswylwyr yr ardal, gan gynnwys yr anabl, i arosfan bysiau Pentre'r Bryn. Mae cynnal a chadw yr arosfan hefyd yn rhan o waith parhaus y Cyngor.

**Gwasanaeth Bancio yng Ngheredigion**

Yn sgil llythyr a dderbyniwyd gan Ben Lake AS ymatebwyd i'r holiadur gan fynegi pryder y Cyngor Cymuned am y nifer fawr o fanciau sydd yn cau yn ein hardaloedd a'r effaith a gaiff hynny ar breswylwyr.

**Effaith Newid Cynfyngiadau Cyflwymder yn yr ardal**

Yn sgil derbyn llythyr gan Elin Jones AS ymatebwyd i'r holiadur gan fynegi'r farn ymysg yr aelodau am natur y cyfyngiad heibio Ysgol Bro Siôn Cwilt yn ogystal â'r angen i gyfyngu ymhellach ar gyflymder cerbydau sy'n teithio bentrefi Maenygroes a Phentre'r Bryn.

**Rhaglen Hyfforddiant**

Rhoddwyd cynllun hyfforddiant newydd ar waith yn ystod 2023/24 i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn gwbl ymwybodol o brosesau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r Cyngor.

**Polisiau'r Cyngor Cymuned**

Mabwysiadwyd nifer o bolisiau newydd yn ystod y flwyddyn.

**Ceisiadau Cynllunio**

Caiff Ceisiadau Cynllunio eu hystyried ym mhob cyfarfod ac anfonir sylwadau at y Gwasanaeth Cynllunio yn unol â hynny.

**Cynyddu cyhoeddusdwydd y Cyngor**

Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i rannu gwybodaeth trwy'r wefan www.llanllwchaearn.org a thrwy tudalen Facebook. Gallwch gysylltu gyda ni drwy'r cyfleusterau yma yn ogystal.

**Rhoddion Ariannol (Adran 137)**

- Cymdeithas Ddiwylliadol
- Clwb Bowlio Llanllwchaearn
- Ysgol Bro Sion Cwilt
- Ffrindiau Ysgol Bro Sion Cwilt
- CFFI Caerwedros
- Blood Bikes Wales
- Cerebral Palsy
- Elusen Ysbyty Arch Noa
- Ambiwlans Awyr Cymru
- Kids Cancer Charity
- Neuadd Caerwedros
- Merched y Wawr y Bryniau
- Urdd Gobaith Cymru – Cronfa Cyfle i bawb

# 5

# Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Y meysydd blaenoriaeth y dylai Cyngor Cymuned Llanllwchaearn eu hystyried yn 2024/25

- Gweld gwelliannau a mynediad llawn i arosfan bysiau Pentre’r Bryn
- Glanhau ymylon ffyrdd yn gyson drwy brosiect codi sbwriel Gymunedol
- Parhau â’r gwaith i geisio gweld arafu ar gerbydau drwy Pentre’r Bryn a Maenygroes
- Gweld gwaith gweithgor y 4 Llan yn datblygu ymhellach ac yn dwyn ffrwyth yn unol â’r anghenion lleol

# 6

# Mynychu Cyngor Cymuned Llanllwchaearn / Cysylltwch â Ni

Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanllwchaearn

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau'r cyhoedd yn mynychu Cyngor Cymuned Llanllwchaearn.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod

**Cysylltwch â ni**

Mrs Sioned Davies (Clerc)
Fronhaul
13 Bro Gido
Gilfachreda
Ceredigion
SA45 9SR

Gwefan:

https://llanllwchaearn.org/index.php/cy/

Gwybodaeth Cynghorwyr

https://llanllwchaearn.org/index.php/cy/cynghorwyr